Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# SWYDDOG CYDYMFFURFIAETH

**Adran Diogelwch Tân Busnes,**
**1 x Canol neu Ddwyrain - Conwy a Sir Ddinbych neu Sir y Fflint a Wrecsam**
**2 x Gorllewin – Gwynedd ac Ynys Môn**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**NWFRS Gradd 05 £29,064 i £31,022 y flwyddyn**

Rydym yn awyddus i benodi tri Swyddog Cydymffurfiaeth i ddarparu a gorfodi diogelwch tân mewn busnesau ac eiddo annomestig yn ei ardal o gyfrifoldeb. Gan gynnal archwiliadau ac arolygiadau diogelwch tân o safleoedd sy'n dod o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (RR(FS)O) a deddfwriaeth berthnasol arall, bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth yn cwblhau'r holl adroddiadau angenrheidiol, hysbysiadau cyfreithiol, recordiadau a gweinyddiaeth i wella cydymffurfiaeth â diogelwch tân.

Bydd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth gorfforol ac ysgrifenedig a darparu cyngor cywir a chlir mewn perthynas â deddfwriaeth diogelwch tân busnes. Gyda dull rhagweithiol a hunan-gymhellol, mae angen sgiliau rhyngbersonol da er mwyn datblygu perthynas waith effeithiol gydag unigolion a grwpiau mewnol ac allanol.

Yn ddelfrydol, y gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Bydd dwy o'r rôl wedi'u lleoli yn y Gorllewin sy'n cwmpasu Gwynedd a Môn gyda'r drydedd i gwmpasu naill ai ein hardaloedd Canol neu Ddwyrain. Rydym yn cynnig y gallu i ymgymryd â gweithio ystwyth, lle gallwch weithio o bell gartref, yn amodol ar argaeledd, yn ogystal â bod ar gael i weithio o leoliadau eraill Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant, datblygiad a chyfleoedd am ddyrchafiad i'r ymgeisydd cywir. Y gobaith yw darparu datblygiad pellach i staff sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol ac sy'n gallu rhoi tystiolaeth o wybodaeth ragorol o ddiogelwch tân ac ymrwymiad i gadw pobl yn ddiogel. Byddai'r cyfleoedd hyn am ddatblygiad ar gael pan fyddai'r staff wedi dangos cymhwysedd yn y swydd Swyddog Cydymffurfio a phan fo swyddi addas yn codi o fewn yr adran.

Sylwch fod y swydd hon yn amodol ar Wiriad DBS Safonol a geirdaon boddhaol. I cael mwy o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: hrdesk@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi hanner dydd, 27.10.2025**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.